

Cyngor i athrawon cyflenwi ynglŷn â sut i gadw'n ddiogel yn ystod y broses o agor ysgolion yn llawn o fis Medi 2020 ymlaen

Mae athrawon cyflenwi'n chwarae rôl hanfodol mewn codi a chynnal safonau addysgol uchel mewn ysgolion. Un o'r blaenoriaethau allweddol i NASUWT yw ymgyrchu i sicrhau hawliau proffesiynol i athrawon cyflenwi, ynghyd â sicrhau cyflogau ac amodau gwaith gweddus i'r holl athrawon cyflenwi.

Mae NASUWT yn cydnabod bod athrawon cyflenwi wedi wynebu cyfnod hynod o anodd yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19. Er bod rhai athrawon cyflenwi wedi'u rhoi ar ffyrlo gan eu hasiantaethau neu wedi parhau i gael eu talu gan yr awdurdod lleol neu'r ysgol yr oeddent yn gweithio iddynt, mae nifer o athrawon cyflenwi wedi bod heb unrhyw incwm.

Mae NASUWT wedi'i ymrwymo i sicrhau bod gan bob aelod unigol, gan gynnwys athrawon cyflenwi, yr wybodaeth y maent ei hangen i'w helpu i gadw'n ddiogel yn ystod pandemig y clefyd COVID-19, yn arbennig yn ystod y broses o agor ysgolion o fis Medi ymlaen, a'r cyfleoedd a allai fod ar gael i athrawon cyflenwi o ganlyniad.

Pwrpas y rhestr wirio hon yw helpu athrawon cyflenwi i gadw'n ddiogel yn ystod y broses o agor ysgolion yn llawn o fis Medi 2020 ymlaen, a sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r cyfrifoldebau sydd gennych chi o ran cadw eich hun a phobl eraill yn ddiogel.

Nodwch y dylid ystyried y rhestr wirio hon ochr yn ochr â'r cyngor cynhwysfawr, y rhestrau gwirio iechyd a diogelwch a'r canllawiau cysylltiedig eraill a gynhyrchwyd gan yr Undeb ynglŷn â'r broses o agor ysgolion o fis Medi 2020 ymlaen, gan gynnwys canllawiau sy'n ymdrin yn benodol â materion iechyd a diogelwch athrawon cyflenwi, sydd ar gael ar: <https://www.nasuwt.org.uk/advice/health-safety/coronavirus-guidance/full-reopening-of-schools/full-reopening-of-schools-wales.html>.

Mae canllawiau gweithredol Llywodraeth Cymru ar sut i agor ysgolion ar ddechrau'r tymor newydd ym mis Medi 2020 ar gael ar dudalen we Llywodraeth Cymru: 'Canllawiau gweithredol ar gyfer ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref'.

Mae'r canllawiau'n cadarnhau bod caniatâd i athrawon cyflenwi symud rhwng ysgolion, ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â threfniadau'r ysgol ar gyfer rheoli a lleihau risgiau, a'u bod yn arbennig o ofalus i gadw pellter oddi wrth aelodau eraill o'r staff a disgyblion.

Cyn i chi dderbyn gwaith cyflenwi i asiantaethau/ysgolion, er mwyn cadw'n ddiogel, dylech ofyn am y canlynol:

Yr asesiad risg cyffredinol ar gyfer yr ysgol.

Y gweithdrefnau a'r trefniadau diogelu i'r staff eu dilyn i ostwng y risg o drosglwyddo'r firws.

Y trefniadau sydd ar waith i gadw athrawon cyflenwi'n ddiogel wrth gyrraedd y gweithle a rhoi gwybod eu bod yn bresennol.

Unrhyw addasiadau rhesymol y byddwch efallai eu hangen os oes gennych chi unrhyw anabled neu os ydych yn feichiog neu'n fam sy'n bronfwydo.

Manylion y trefniadau ar gyfer cadw pellter cymdeithasol a lleihau cyswllt.

Manylion unrhyw berson cyswllt dynodedig, os bydd gennych unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud â COVID-19 neu faterion eraill, neu os bydd problem neu argyfwng yn codi, gan gynnwys i ble ac i bwy y dylech roi gwybod eich bod wedi cyrraedd bob dydd.

Fel athro cyflenwi/athrawes gyflenwi, pan fyddwch yn cyrraedd eich gwaith am y tro cyntaf yn yr ysgol (neu o flaen llaw, os yn bosibl), er mwyn cadw'n ddiogel, dylech ofyn am y canlynol:

Manylion unrhyw berson cyswllt dynodedig, os bydd gennych unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud â COVID-19 neu faterion eraill, neu os bydd problem neu argyfwng yn codi.

Manylion le i fynd a phwy i fynd atynt i roi gwybod eich bod wedi cyrraedd bob dydd, gan gynnwys manylion y broses o gofrestru.

Manylion y trefniadau sydd ar waith y bydd disgwyl i chi eu dilyn i sicrhau bod pellter corfforol priodol yn cael ei gadw.

Unrhyw ganllawiau i'r staff am arferion gweithio i gadw'n ddiogel rhag COVID-19.

Manylion ynglŷn â sut i godi unrhyw bryderon ynglŷn ag iechyd a diogelwch, gan gynnwys y rheiny sy'n benodol berthnasol i'r clefyd COVID-19.

Manylion ynglŷn â sut i alw am gymorth, gan gynnwys cymorth cyntaf, yng nghyd-destun COVID-19.

Taith o amgylch safle'r ysgol gan nodi'r ystafelloedd lle byddwch yn addysgu, yn ogystal â manylion unrhyw systemau llif unffordd neu systemau eraill o'r fath sydd ar waith i leihau cyswllt a chadw pellter cymdeithasol.

Manylion yr ystafell cymorth cyntaf agosaf, neu'r man priodol agosaf, gan gynnwys i ble y dylech anfon y rheiny sy'n dangos symptomau posibl y clefyd COVID-19.

Manylion yr allanfa dân agosaf ac unrhyw gynlluniau gwacáu sydd wedi'u diwygio yng nghyd-destun COVID-19, gan gynnwys gweithdrefnau a llwybrau dianc.

Manylion y camau gweithredu i'w cymryd os bydd achos posibl o'r clefyd COVID-19.

Manylion yr ystafell athrawon a'r toiledau a'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer lleihau cyswllt a chadw pellter cymdeithasol.

Copi o'r amserlen sy'n nodi egwylliau ac amseroedd cinio, yn ogystal â'r hyn a ddisgwylir gan y staff yn ystod cyfnodau o'r fath.

Manylion ynglŷn â sut i gael gafeael ar wybodaeth berthnasol am y cynlluniau gwaith ar gyfer y pynciau y bydd disgwyl i chi eu haddysgu.

Manylion ynglŷn â sut i gael gafeael ar gyfrifiaduron (e.e. gliniaduron neu gyfrifiaduron sefydlog), gan gynnwys y manylion mewngofnodi a'r camau gweithredu i'w cymryd ar ddiwedd y diwrnod ysgol.

Manylion unrhyw adnoddau y gellid yn rhesymol ddisgwyl i chi eu darparu i leihau cyswllt (e.e. ysgrifbinnau ac ati) ac ymhle y gellir eu storio'n ddiogel.

Manylion yr hylif diheintio dwylo sydd ar gael, a sut i gael gafeael arno, er mwyn eich galluogi i olchi eich dwylo'n aml am o leiaf 20 eiliad drwy gydol y diwrnod ysgol.

Manylion ynglŷn â sut i gael gafeael ar gyfarpar diogelu personol (PPE) priodol, sut i'w defnyddio, ac ymhle i gael gafeael ar ddŵr poeth a sebon, yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer glanhau arwynebau cyffwrdd yn rheolaidd drwy gydol y dydd.

Rhestr o'r disgyblion sydd yn y dosbarth(iadau) y byddwch yn eu haddysgu, gan gynnwys manylion unrhyw gyflyrau meddygol, problemau ymddygiad, neu anghenion addysgol arbennig ac anabledau (AAAA), ynghyd â manylion y ffordd y dylent gael eu rheoli yn ystod pandemig y clefyd COVID-19 (e.e. addasiadau rhesymol, asesiadau risg unigol).

Manylion unrhyw ddisgyblion y gwyddys eu bod â'r potensial i fod yn dreisgar, ynghyd ag unrhyw asesiadau risg cysylltiedig sydd yn eu lle ac sydd wedi'u diwygio yng nghydestun COVID-19, gan gynnwys unrhyw hyfforddiant penodol sy'n ofynnol, ynghyd â sut i fynd ati'n briodol i drefnu eich bod yn ei dderbyn.

Manylion y broses gofrestru a'r hyn a ddisgwylir gan y disgyblion o ran symud yn briodol o amgylch safle'r ysgol rhwng gwersi, yn ystod egwylliau ac amseroedd cinio, ac ar ddiwedd y diwrnod ysgol.

Manylion sy'n benodol berthnasol i drefn reoli ymddygiad yr ysgol, gan gynnwys y gefnogaeth sydd ar gael i'ch helpu i reoli ymddygiad yn effeithiol gan leihau cyswllt a chadw pellter cymdeithasol.

Manylion unrhyw ddigwyddiadau, cyfarfodydd neu weithgareddau penodol a fydd yn cael eu cynnal yn ystod y penodiad.

Eich dyletswyddau fel athro cyflenwi/athrawes gyflenwi

Er mwyn cadw'n ddiogel yn ystod y broses o agor ysgolion o fis Medi ymlaen, mae dyletswydd arnoch chi i gymryd gofal rhesymol o'ch iechyd a'ch diogelwch eich hun ac iechyd a diogelwch pobl eraill a allai gael eu heffeithio gan eich gweithredoedd yn y gwaith, yn arbennig yn ystod pandemig y clefyd COVID-19.

Mae'n rhaid i chi gydweithio â'ch asiantaeth a'r defnyddiwr terfynol yn y fan lle'r ydych yn gweithio, gan gynnwys rhoi unrhyw wybodaeth iddynt a allai olygu bod angen gwneud asesiad risg cyn i chi dderbyn y penodiad yn yr ysgol.

Er enghraifft, os oes pryder ynglŷn â'ch sefyllfa sy'n ei gwneud hi'n anodd i chi dderbyn penodiad yn yr ysgol, neu y dylech ei ddatgelu i'r ysgol o flaen llaw, yna dylech ddatgelu'r wybodaeth hon gynted ag y gallwch (e.e. os ydych yn feichiog neu o gefndir du neu leiafrifoedd ethnig).

Unwaith y byddwch wedi datgelu gwybodaeth o'r fath i'r asiantaeth, bydd ganddynt ddyletswydd statudol i ystyried unrhyw drefniadau sy'n angenrheidiol i'ch galluogi i dderbyn pob penodiad yn ddiogel.

Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974

Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 yn gosod cyfrifoldeb ar bob cyflogwr i sicrhau iechyd a diogelwch ei gyflogeion a phobl eraill yn ei weithle, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol. Mae hyn yn cynnwys canfod ac asesu risgiau i iechyd a diogelwch, a chymryd camau i ostwng neu ddiddymu'r risgiau hyn, er mwyn sicrhau diogelwch y bobl hynny sy'n gweithio mewn ysgolion o fis Medi 2020 ymlaen, gan gynnwys athrawon cyflenwi.

O dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, mae gan y darparwr (h.y. yr asiantaeth gyflenwi) a'r defnyddiwr terfynol gydyfrifoldeb am sicrhau iechyd a diogelwch gweithwyr asiantaeth, megis athrawon cyflenwi.

Mae hyn yr un mor berthnasol i chi os ydych yn cael eich cyflenwi gan gwmni ymbarél, am mai'r cwmni hwn yw eich cyflogwr yn ôl y gyfraith.

Wrth baratoi ar gyfer agor ysgolion a chadw pobl yn ddiogel o fis Medi 2020 ymlaen, dylai asiantaethau a chwmnïau ymbarél gymryd camau rhesymol i'w sicrhau eu hunain bod unrhyw faterion iechyd a diogelwch yn derbyn sylw mewn ffordd foddhaol yn yr ysgolion y bydd disgwyl i chi weithio ynddynt o bosib yn rhan o'ch penodiadau, ac mae hyn yn cynnwys y camau priodol i leihau'r risg o ddal y clefyd COVID-19.

Dylai'r asiantaeth roi'r wybodaeth berthnasol i chi mewn da bryd er mwyn i chi allu ymgwyfarwyddo'n llawn â'r sefyllfa ar safle'r cyflogwr hwnnw.

Dylai'r asiantaeth hefyd sicrhau eich bod yn derbyn y manylion ynglŷn â sut i godi unrhyw bryderon yn ymwneud ag iechyd a diogelwch yn y gweithle.

Rheoliadau Ymddygiad Asiantaethau Cyflogaeth a Busnesau Cyflogaeth 2003

Mae Rheoliad 18 yn Rheoliadau Ymddygiad Asiantaethau Cyflogaeth a Busnesau Cyflogaeth 2003 hefyd yn rhoi disgwyliad ar asiantaethau i sicrhau a darparu gwybodaeth am bob ysgol, gan gynnwys unrhyw risgiau neu unrhyw broblemau ynglŷn ag iechyd a diogelwch a welir mewn asesiadau risg trwyadl, gan gynnwys y risg o ddal y clefyd COVID-19.

Ymhellach, os na fydd y penodiad yn pennu cyfnod hysbysu, mae'r Rheoliadau Ymddygiad yn cynnwys darpariaethau sy'n eich caniatáu i adael y swydd unrhyw bryd os byddwch yn teimlo'n anniogel, gan gadw'r hawl i gael eich talu am y gwaith yr ydych wedi'i wneud hyd hynny.

Hydref 2020